# Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## (HSS(2)-17-06)

### Dyddiad y cyfarfod: Dydd Iau 30 Tachwedd 2006
### Amser y cyfarfod: 9.30 am - 12.00 pm
### Lleoliad y cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

#### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Rhodri Glyn Thomas (Cadeirydd) | Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |
| Brian Gibbons (Gweinidog) | Aberafan |
| John Griffiths | Dwyrain Casnewydd |
| Helen Mary Jones | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Ann Jones | Dyffryn Clwyd |
| Jonathan Morgan | Canol De Cymru |
| Jenny Randerson | Canol Caerdydd |

#### Swyddogion yn Bresennol

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Ann Lloyd | Pennaeth yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Dr Tony Jewell | Y Prif Swyddog Meddygol |
| Stuart Moncur | Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Mark Partridge | Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Gwasanaethau Cyfreithiol |
| Ginny Blakey | Swyddfa'r Prif Swyddog Meddygol |
| Elizabeth Lockwood | Y Gyfarwyddiaeth Polisi Pobl Hyn a Gofal Hirdymor |

| | |
|---|---|
| Amanda Jones | Gwasanaethau Cyfreithiol |
| Rachael Stephens | Gwasanaethau Cyfreithiol |

**Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad**

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Jane Westlake | Clerc y Pwyllgor |
| Sara Mansour | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |
| Kathryn Potter | Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau |
| Peter Jones | Cwnsler y Cynulliad |

## Eitem 1: Ymddiheuriadau, Dirprwyon a Datgan Buddiannau

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Karen Sinclair a Lynne Neagle. Roedd Ann Jones yn dirprwyo ar ran Karen Sinclair.

1.2 Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiant.

1.3 Bydd cofnod gair-am-air o'r cyfarfod ar gael.

## Eitem 2: Adroddiad y Gweinidog
## HSS(2)-17-06(p1)

2.1 Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad y Gweinidog.

2.2 Ymatebodd y Gweinidog i gwestiynau gan yr Aelodau.

## Cam i'w gymryd

Y Gweinidog i ddarparu rhagor o wybodaeth fel a ganlyn:

- Y costau o ganlyniad i'r oedi o ran ailsefydlu pobl o Ysbyty Bryn y Neuadd;
- Yr amserlen ar gyfer "Gwerthuso Therapïau Addasu Clefydau ar gyfer Sglerosis Ymledol ymhellach".

## Eitem 3: Rhestr o Is-ddeddfwriaeth
## HSS(2)-17-06(p2a) a HSS(2)-17-06(p2b)

3.1 Nododd yr Aelodau'r eitemau canlynol i graffu arnynt o'r Rhestr o Is-ddeddfwriaeth:

HSS 44 (06) Cyfarwyddiadau i Fyrddau Iechyd Lleol ar Ddatganiad o Hawliau Ariannol (Diwygio Rhif 3 Cyfarwyddiadau 2006), a

HSS 45 (06) Cyfarwyddiadau’r Bwrdd Iechyd Lleol (Rhaglen Frechu Plant) 2006

**Cam i’w gymryd**

Bydd y Cadeirydd yn rhoi gwybod i’r Pwyllgor Busnes am yr is-ddeddfwriaeth a nodwyd ar gyfer gwaith craffu

**Eitem 4: Is-ddeddfwriaeth: Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hyn Cymru 2007 a Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hyn Cymru (Penodi) 2007**
**HSS(2)-17-06(p3)**

4.1 Ni chynigiwyd unrhyw ddiwygiadau ond roedd Jenny Randerson wedi rhoi gwybod am bwynt o esboniad ar Ran VI Rheoliadau Pobl Hyn Cymru 2007, mewn perthynas â pharagraff 16(1) a (2). Gofynnodd a ellid rhagweld y byddai adroddiad blynyddol i’r Cynulliad yn ogystal ag i’r Prif Weinidog.

Derbyniodd y Dirprwy Weinidog bod anghysondeb yn y modd y cafodd paragraffau 16 (1) a (2) eu drafftio a chytunodd y byddai is-baragraff (2) yn cael ei gywiro i gyfeirio at y Cynulliad ac nid at y Prif Weinidog.

Roedd y Pwyllgor yn credu y dylai’r un geiriad fod yn berthnasol i reoliadau yn ymwneud â’r Comisiynydd Plant.

4.2 Yn amodol ar y diwygiad hwn roedd y Pwyllgor yn fodlon â’r ddeddfwriaeth ddrafft.

**Cam i’w gymryd**

Adroddiad y Pwyllgor i’w gyflwyno a’r Cadeirydd i ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Busnes

**Eitem 5: Is-ddeddfwriaeth: Rheoliadau Mangreoedd Di-fwg etc (Cymru) 2007**
**HSS(2)-17-06(p4)**

5.1 Ni nodwyd unrhyw welliannau ac ni chodwyd unrhyw bwyntiau o esboniad.

**Eitem 6: Datblygu Gwasanaethau Gofal Brys**
**HSS(2)-17-06(p5)**

6.1 Ymatebodd y Gweinidog a’r swyddogion i gwestiynau gan aelodau’r Pwyllgor.

**Cam i’w gymryd**

Y Gweinidog i ddarparu papur ar y cynllun gweithredu manwl.

## Eitem 7: Blaenraglen Waith y Pwyllgor - Ionawr i Mawrth 2007
## HSS(2)-17-06(p6)

7.1 Cafwyd trafodaeth ar y flaenraglen waith fanwl ar gyfer gweddill tymor yr hydref. Cyflwynwyd y newidiadau canlynol;

"Adroddiad Prif Arolygydd, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru" i'w gwtogi i hanner awr;

"Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol – Cynigion Manwl Llywodraeth Cynulliad Cymru ar ôl ymgynghori", i'w symud i'r cyfarfod ar 25 Ionawr.

7.2 Cytunodd y Pwyllgor i gynnal cyfarfod ychwanegol ddechrau mis Ionawr i drafod adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a chynigion moderneiddio'r Ymddiriedolaeth.

## Cam i'w gymryd

Y Clerc i wneud y newidiadau hyn i Flaenraglen Waith y Pwyllgor.

Y Clerc i drefnu'r cyfarfod ychwanegol.

## Papurau i'w Nodi

Gwybodaeth gan Goleg Brenhinol y Nyrsus – Tystiolaeth fesurol o enghreifftiau lle bu cyfateb swyddi yn gysylltiedig â chyllid HSS(2)-17-06(p7)

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd 2006
HSS(2)-16-06-min

Gwasanaeth y Pwyllgorau
Tachwedd 2006